

Rheoleiddio Systemau Da Byw Diwydiannol

Y mater

Mae'r galw yn y farchnad am gig ratach wedi gyrru dwysau systemau da byw. Nid yw gwir gostau hyn, i natur, ansawdd aer a dŵr a lles anifeiliaid, yn cael eu hadlewyrchu ym mhris cynnyrch cig a llaeth ar silffoedd yr archfarchnadoedd.

Mae rhannau sylweddol o gynhyrchu da byw Cymru bellach yn gweithredu ar fodel diwydiannol, gyda gorddibyniaeth ar fewnbynau allanol o borthiant, gwrtaith a meddyginiaethau, ac yn gweithredu ar ddwysedd stocio sy'n fwy na gallu'r tir i'w gynnal.

Mae ffermio llaeth dwys yn benodol yn cynhyrchu cyfeintiau uchel o slyri sy'n cyfrannu at lygredd afonydd. Ym maes dofednod, mae 95% o'r biliwn cyw iâr a ffermir yn flynyddol yn y DU yn cael eu magu mewn ffermydd ffatri, gan gynhyrchu tail sy'n garwhaet briddoedd ac yn achosi dŵr ffofforws, gan gyfrannu at ddinistrio ecosystemau dŵr croyw.

Pam mae'n bwysig i Gymru

Mae llygredd ffosffad o amaethyddiaeth wedi gwthio dros 60% o afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Cymru y tu hwnt i'w terfynau ffosffad, gan sbarduno gofyniad niwtraliaeth maethynnau sy'n atal datblygiad tai ar draws rhannau helaeth o'r wlad¹.

Mae maethynnau a gollir o wrteithiau synthetig a systemau da byw dwys yn llygru dyfrffyrdd ac yn costio amcangyfrif o £420 miliwn y flwyddyn i ffermwyr am nitrogen yn unig². Daw hyn ar adeg pan fo incymau fferm gyfartalog yng Nghymru yn gostwng, gan greu pwysau i ddwysáu ymhellach. Mae data swyddogol yn dangos bod y sector llaeth yn cydgrynhoi'n llai o ffermydd mwy dwys, a rhai'n gweithredu gyda >1,000 o benaid³.

Dalgylch y Cleddau bellach yw'r mwyaf llygredig o ran maethynnau yng Nghymru, wedi'i yrru gan gynhyrchu llaeth dwys. Rhwng 2016 a 2022, priodolwyd 56% o ddigwyddiadau llygredd Cleddau Wen, a 72% o rai Cleddau Du, i amaethyddiaeth, gyda slyri yn brif lygrydd. Mae niferoedd cynyddol o geisiadau am unedau dofednod dwys hefyd bellach yn cael eu cyflwyno yn y rhan hon o Gymru⁴.

Cyd-fynd â chyd-destun polisi Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhellion adolygiad statudol 2025 o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (Rheoliadau CoAP)⁵, a gyflwynodd yr hyn y mae rhai'n ei alw'n 'Barth Perygl Nitradau Cymru gyfan'. Mae Rheoliadau CoAP yn nodi bod ffermydd llaeth, cig eidion a dofednod dwys yn bennaf sydd â nifer o dda byw a fyddai'n fwy na'r trothwy rheoleiddied ar gyfer cynhyrchu tail.

Nid yw Cymru wedi cryfhau ei pholisi cynllunio i wahardd gosod unedau dofednod dwys newydd, ond byddai gwaharddiad yn cyd-fynd â dyletswyddau Llesiant drwy fabwysiadu golwg hirdymor (diogelu cenedlaethau'r dyfodol), atal rhagor o lygredd/niwed i ecosystemau, ac integreiddio pryderon amgylchedd, iechyd, amaethyddiaeth, a chymuned.

Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales



Ein safbwynt

Agroecoleg - cynllunio systemau ffermio sy'n gweithio gyda natur yn hytrach nag yn ei herbyn - yn cynnig ateb gwerth am arian i lywodraeth a'r gadwyn gyflenwi. Mae ffermio organig yn dangos model wedi'i brofi ac sy'n cyflawni. Gall da byw chwarae rhan bwysig mewn systemau fferm agroecolegol, gyda dwysedd stocio is, gwell rheolaeth pori, mwy o fynediad at borfa, y lleiafswm o fewnbynnau wedi'u mewnfurio a llai o ddibyniaeth ar wrteithiau synthetig. Rydym hefyd am weld chwarae teg, gyda chymhellion teg ar gyfer ffermydd sy'n buddsoddi mewn safonau lles uwch, diogelu'r amgylchedd, neu arferion cynaliadwy, a rheoleiddio wedi'i dargedu i atal lledaeniad modelau cynhyrchu da byw diwydiannol.

Sut rydym yn mynd i'r afael â hyn

- Mae'r Soil Association yn bartner sefydlu yn y Sustainable Nitrogen Alliance⁶.
- Drwy grŵp Dŵr Cyswllt Amgylchedd Cymru, rydym wedi galw am ganiatáu a rheoleiddio amaethyddol tynnach, a gweithredu brys ar draws y system ddŵr ar bob ffrynt.
- Mae Pennaeth Ffermio Cymru, Haydn Evans, yn aelod o grŵp Gorchwyl a Gorffen CoAP a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion adolygiad statudol CoAP.
- Galwodd ein hymgyrch gyhoeddus fwyaf poblogaidd, "Stop Killing our Rivers" (2024), am foratoriwm ar unedau dofednod dwys⁷.

Yr hyn rydym eisiau i lunwyr polisiâu yng Nghymru ei wneud:

- Gwahardd neu reoleiddio'n dynn weithrediadau da byw dwys newydd
- Ymestyn caniatáu amgylcheddol i ffermydd llaeth a chig eidion dwys
- Ehangu cymorth fferm sy'n gyfeillgar i natur ar gyfer ffermwyr
- Datblygu strategaethau integredig, traws-lywodraethol ar nitrogen a ffosfforws
- Hyrwyddo priddoedd iach a chylchu maethynnau

Tystiolaeth/cyfeiriadau

1. [Natural Resources Wales: Principles of nutrient neutrality in relation to development or water discharge permit proposals](#)
2. [Damage from "deadly and overlooked" hidden pollutant recognised after years of political failure - inquiry findings welcomed by Sustainable Nitrogen Alliance](#)
3. [Farm incomes: April 2023 to March 2024](#)
4. [Afonydd Cymru: The Eastern And Western Cleddau](#)
5. [Statutory review of the Control of Agricultural Pollution Regulations: 2025 review](#)
6. [Sustainable Nitrogen Alliance](#)
7. [Soil Association campaign: Stop Killing our Rivers](#)

- [Agricultural pollution in rivers](#)
- [Costly nitrogen pollution can be tackled by farmers adopting organic practices, Lords told](#)

Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales

